**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | E T Kirchner | W G Lewis |
| G J Tanner | T M White | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
D Anderson-Thomas

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | L R Jones |
| P R Hood-Williams | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R C Stewart | Arweinydd / Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Craig Gimblett | Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

---

### 132 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd C A Holley – personol - Cofnod Rhif 88 - Mae ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**133 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**134 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020 a chofnodion cyfarfodydd arbennig Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2020 a 4 Mehefin 2020 fel cofnod cywir.

**135 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**136 Ymateb y Cyngor i Bandemig COVID-19.**

Roedd yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyllid a'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol oll yn bresennol yn y cyfarfod pwyllgor i ystyried ymateb y cyngor i bandemig COVID-19.

Darparodd yr Arweinydd gyflwyniad a oedd yn cynnwys: -

- Strwythur gwneud penderfyniadau yn ystod yr argyfwng
- Ail-lunio gwasanaethau'r cyngor yn gyflym
- Cefnogi'n GIG
- Ehangu gofal cymdeithasol
- Cefnogi gweithwyr allweddol
- Cefnogi pobl ddiamddiffyn
- Helpu'r digartref
- Profi, Olrhain, Diogelu
- Talu am gost COVID-19

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Arweinydd a swyddogion yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Trefniadau cynllunio rhag argyfyngau - gweithio ar y cyd, trefniadau rheoli strategol a Fforwm Cydnerthu Lleol De Cymru.
- Cefnogaeth angenrheidiol i geiswyr lloches a ffoaduriaid - goresgyn cyfyngiadau ar daliadau a bod yn gallu teilwra pecynnau bwyd fel eu bod yn addas i anghenion
- Dim troi at arian cyhoeddus - problem ond nid yw wedi atal y gallu i ddarparu gwasanaethau lleol i'r rhieni mewn angen
- Angen adnoddau a phosibilrwydd y bydd gofyniad parhaus am barseli bwyd yn dilyn yr argyfwng
- Pryder economaidd parhaus ac anghenion cynyddol

- Digartrefedd - cynnydd posib yn ystod ac ar ôl yr argyfwng; trafodaeth am wrthod derbyn cynnig o dŷ a gwasanaeth 'Tai yn Gyntaf' a chefnogaeth gynhwysol y cyngor
- Gweithio mewn partneriaeth yn benodol gyda busnesau yn ystod yr argyfwng ac o ran cynllunio ar gyfer adfer.
- Rhaglen y Fargen Ddinesig - mae gwaith wedi parhau ac yn parhau o hyd ac nid yw'r argyfwng wedi effeithio ar y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru
- Problem o ran prydles ysbyty maes y Bae a allai effeithio ar ei ddefnydd yn y dyfodol fel canolfan ychwanegol at ddibenion iechyd.
- Effaith gweithio gartref yn fwy ar wasanaethau a staff - cydbwyso manteision gweithio gartref ag iechyd, diogelwch a lles. Teimlwyd ei fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gweithio rhanbarthol, ond cydnabyddir y cyfyngiadau
- Adolygu polisïau gweithio hyblyg a gartref ac edrych ar y gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod hwn
- Ailgychwyn y gwasanaeth casglu sbwriel a chanolfannau ailgylchu ac effaith cyfyngiadau ar y gwasanaeth
- Goblygiadau ariannol COVID-19 gyda chostau cynyddol yn ogystal â refeniw coll - adennill costau oddi wrth Lywodraeth Cymru
- Adnodd parhaus / cost ar gyfer Profi, Olrhain, Diogelu
- Effaith ar incwm o ffïoedd, taliadau a threth y cyngor
- Pwysigrwydd twristiaeth wrth gynllunio ar gyfer adferiad a chynhyrchu incwm o dwristiaeth - cefnogaeth i dwristiaeth
- Gwelliannau i'r amgylchedd a chynyddu'r cysylltiad â'r amgylchedd - gwersi i'w dysgu o'r argyfwng
- Cynllun gweithredu ar gyfer newid yn yr hinsawdd
- Traffig yng nghanol y ddinas- buddsoddiad yn rhwydwaith y metro a theithio llesol yn cael ei ffafrio yn hytrach nag ystyried tâl atal tagfeydd
- Parhau i ddefnyddio gwirfoddolwyr sydd wedi helpu'r ddinas yn ystod yr argyfwng

Diolchodd yr Arweinydd i'r holl staff, gwirfoddolwyr, gweithwyr allweddol, y GIG, Cynghorwyr, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Prif Weithredwr a nifer o bobl eraill sydd wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol yr argyfwng.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r holl staff a'r Tîm Rheoli Corfforaethol sydd wedi mynd y tu hwnt i'r galw, gan weithio'n ddiflino i ddelio â'r argyfwng a chynnal gwasanaethau. Mynegodd ei ddiolch hefyd i'r Arweinydd, gan nodi'r cynnydd parhaus gyda'r datblygiadau yng nghanol y ddinas ochr yn ochr â delio â'r argyfwng cyfredol.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, i'w holl staff, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Arweinydd am y gwaith caled a wnaed wrth ymateb i'r argyfwng cenedlaethol hwn. Mynegodd ei ddiolch hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi helpu ar draws y ddinas.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 137 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am 'lythyrau craffu'.

**Nodwyd** yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.55 pm

**Cadeirydd**